

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mawrth 18fed - 2015
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Lewis Davies, Gill Cheverton, Alwena Roberts (AR) a Rhian Hughes (RH).

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Mark Williams (tymor hir), Bari Gwilliam, Paul Gash, Alwyn Rowlands a Carwyn Jones.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. M Williams ar drafodaeth Tyddyn Waun

Cyng. L Davies ar gais y Gilfach

Cyng. D Pritchard ar drafodaeth torri coed ger Pensarn.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. A Roberts, eilio gan Cyng. R Hughes.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Fynwent Llanddona - materion yn symud ymlaen, cyfreithiwr wedi anfon papurau ymlaen. Problem cysylltu â Mr Jones.

5.2 Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau Pobl Seiriol - MR wedi mynychu a chyfarfod ynglŷn â Gerddi Haulfre.

5.3 Cerrig ger Llain Gron - Clerc wedi anfon llythyr perchennog Llain Gron, gofyn iddo symud y cerrig. LD i ofyn i'r Cyngor Sir gosod arwyddion ar y ffordd.

5.4 Baw Cŵn - Clerc i drafod y mater gyda N Tookey ynglŷn ar arwyddion.

5.5 Graeanu Lôn Hafoty - Clerc wedi anfon llythyr i Cyngor Cymuned Cwm Cadnant i roi pwysa ar y Cyngor Sir i newid blaenoriaeth y ffordd. Clerc i gysylltu ar Cyngor Sir i ofyn be ydi sefyllfa gyfreithiol i'r Cyngor Cymuned pwrcasu a lledaenu'r graean ar y ffordd. LD i drafod y mater hefyd gyda Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.

5.6 Ysgol Llanddona - RH yn adrodd, cyfarfod wedi cymryd lle gyda Arweinydd y Cyngor Sir ac aelodau Pwyllgor y Neuadd. Cyngor Sir yn dal i bwysu am amserlen 18 mis i gwblhau'r broses. Amserlen yma'r rhy dynn, tebygol o fod yn 20 mis. Ffigwr dim wedi ei osod eto. Pwyllgor wedi gofyn am memorandum dealltwriaeth. Wedi cael caniatâd i anfon pensaer i edrych ar yr adeilad, a gofyn am adroddiad arolwg asbestos.

5.7 Lle parcio ger Tai Cyngor - penderfynwyd gofyn i LD gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir. DP yn codi pryderon ynghylch ar awgrym hwn.

5.8 Dim arwyddion ar lwybr troed ger Fferm Glanrafon - Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir, disgwyl mwy o wybodaeth oddi wrth BG.

5.9 Llwybr Tai Bach - dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach. Clerc i gysylltu ar Cyngor Sir.

5.10 Cynllun Datblygu Lleol - mae angen i rannu gyda gweddill o'r Cyngorwyr er mwyn cael sylwadau. LD yn adrodd mae prinder o dir sydd i adeiladu o fewn y clystyrau. GC a MR yn godi pryderon ynghylch yr ardal gadwraeth. MR hefyd yn codi pryder nad oedd neb o'r adran wedi ymweld â chynghorau lleol i drafod y cynllun.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd

LD - wedi derbyn nifer o gwynion i ymwneud ar arwydd newydd "St Michael's Church" i Eglwys Llanfihangel.

Llanfihangel yw'r hen enw, a gellid ei golli fel hyn. I ysgrifennu i'r Cyngor Sir.

Cyngor Sir yn meddwl torri gwasanaeth "Brecwast am ddim" - am ail edrych ar y sefyllfa.

Cyllideb - treth y Cyngor wedi ei osod ar 4.5% ar gyfer 2015/16

Cyfarfod grŵp Seiriol - angen sefydlu grwpiau i arwain ar bwyntiau gwahanol.

Safle Gerddi Haulfre - wedi cyfarfod gydag Andrew Jones, lle maent angen gwario llawer o arian yno i wneud y cynllun yn llwyddiannus.

Cyfarfod brys wedi ei drefnu wythnos nesaf ar gyfer trafod Ysgolion newydd a chynllun ôl-ofal. Prinder tir ym mhob man.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C38C - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Gilfach, Llanddona - dim gwrthwynebiad, ond bod y Cyngor Cymuned yn ymwybodol bod y datglygiad ger llaw llwybr troed ac mae mynediad yn bodoli dros y plot yma i eiddo cyfagos.

Er Gwybodaeth

- 22C40A - Cae Maes Mawr. Apêl am ddyfarniad o gostau yn erbyn Adran Cynllunio wedi ei wrthod gan Arolygydd Cynllunio.

8. Tir Tyddyn Waun

Cyngor Cymuned wedi derbyn datganiad gan ei gyfreithiwr bod y tir ym mherchnogaeth Mr a Mrs Walker ac wedi cytuno trosglwyddo'r tir. MW yn adrodd bod materion yn symud ymlaen gyda'i gyfreithiwr.

9. Peilonau

Clerc wedi cysylltu â National Grid lle maent wedi cytuno i fod yn bresennol a gwneud cyfweiliad. Cytunwyd nad oedd y Capel yn addas ar gyfer digwyddiad yma ac awgrymwyd bod Neuadd y Pentre' yn fwy priodol. Clerc i gysylltu i gael y manylion a hysbysebu'r cyfweiliad.

10. Torri coed ger Tai Bach

Clerc wedi ysgrifennu i Mr Huntington gan egluro'r sefyllfa. Wedi derbyn cwyn arall gan Mr Jackson ynglŷn â thorri'r coed helyg ar y tir comin ger eiddo Pensarn.

RH yn adrodd fod S Hunt yn mynd i edrych ar gael arian cyfatebol tuag at dorri'r coed helyg ar dir comin.

10. Cyfrifon

Penderfynwyd talu:-

- Gost defnydd ystafell Capel Peniel 7 x £20 - £140.00
- Papur Menai - £50.00

Clerc yn adrodd ar ddatganiadau'r banc.

11. Gohebiaeth

Llythyr – Tir Tyddyn Waun

e-bost – Cyng. L Davies

e-bost – Cyngor Sir, Ilwybr at Traeth Coch

12. UFA:

12.1 Cais trwy gyfreithiwr gan Dr Pritchard Jones am hawddfaint dros dir comin er mwyn cael mynediad ac i gysylltu'r plot Glyndŵr i wasanaethau. Dilyn trafodaeth, gyda phawb yn gytûn, penderfynwyd caniatáu hawddfaint dros y llain o dir a gofyn i'r ymgeisydd i dalu costau cyfreithiol y Cyngor Cymuned a chynnig rhodd tuag at y tir. Clerc i gysylltu ag ein cyfreithiwr.

12.2 MR - angen etholiad mis Ebrill i ddewis Is-Gadeirydd.

12.3 Lamp stryd ger eiddo Ty'n Berth a Fferm Penhwnllys Bach dim yn gweithio.

12.4 Taith beics o amgylch Prydain yn cychwyn o Fiwmares mis Medi.

12.5 Cyngor ar Bopeth - hysbyseb i gymryd rhan weithredol yn y gymuned. Clerc i osod i fyny yn yr hysbysfwrdd

12.6 Rhestr apeliadau - Penderfynwyd rhodd £50 at apêl Papur Menai

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 15/04/15 am 7.30 yn Neuadd y Pentre'.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad